

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
26 Ionawr 2023

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

Mae *Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023* (“*Rheoliadau 2023*”) yn pennu'r lluosydd ardrethu annomestig (NDR) ar gyfer Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-2024. Maent yn adlewyrchu'r penderfyniad a gyhoeddwyd ar 12 Rhagfyr 2022 i rewi'r lluosydd, yn hytrach na defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) i gyfrifo'r cynnydd yn y lluosydd.

Mae Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) yn rhagnodi'r dull diodyn o ymdrin â chynnydd blynyddol yn y lluosydd, gan ystyried CPI.

Mewn blwyddyn ailbriso, ac mae blwyddyn ariannol 2023-24 yn flwyddyn ailbriso, pennir y lluosydd ar lefel a fydd yn sicrhau bod cyfanswm refeniw NDR yn aros yr un peth mewn termau real, gan gymryd i ystyriaeth newidiadau yng nghyfanswm gwerth ardrethol y sylfaen drethu a CPI. 10.1% oedd y ffigur CPI ar gyfer mis Medi, sy'n sylweddol uwch na'r hyn a welwyd yn ystod blynyddoedd diweddar. Am fod penderfyniad polisi wedi cael ei wneud i rewi'r lluosydd ar gyfer 2023-24, yn hytrach na defnyddio CPI, mae'n ofynnol gwneud Rheoliadau 2023.

Cyfrifo'r lluosydd

Caiff y lluosydd ei gymhwyso i werth ardrethol pob eiddo annomestig i gyfrifo ei fil NDR.

Mae'r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ar gyfer 2023-24, sy'n flwyddyn ailbriso, wedi ei nodi ym mharagraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988.

Y fformiwla er mwyn cyfrifo'r lluosydd ar gyfer 2023-24, sy'n flwyddyn ailbriso, yw:

$(A \times B \times D) / (C \times E)$.

- A yw'r lluosydd ar gyfer 2022-23
- B yw'r ffigur CPI ar gyfer mis Medi 2022
- C yw'r ffigur CPI ar gyfer mis Medi 2021
- D yw cyfanswm amcangyfrifedig gwerth ardrethol yr holl hereditamentau ar 31 Mawrth 2023
- E yw cyfanswm amcangyfrifedig gwerth ardrethol yr holl hereditamentau ar 1 Ebrill 2023

Gwneir amcangyfrifon ar gyfer D ac E ar sail gwybodaeth sydd ar gael i Weinidogion Cymru ar ddyddiad a bennir ganddynt. Yn yr achos hwn, amcangyfrifwyd y ffigurau hyn ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael ar 22 Tachwedd 2022.

Mae gan Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, y pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwyso'r is-baragraffau yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n ymdrin â'r CPI (h.y. is-baragraffau (5A), (5B), (9A) a (9B) o baragraff 5). Caiff Gweinidogion

Cymru naill ai amnewid cyfeiriadau at CPI gyda mynegai arall neu ddarparu ffigur penodedig neu ffigur wedi'i ddisgrifio ar gyfer naill ai B a/neu C.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhewi'r lluosydd ar gyfer 2023-24 drwy addasu'r ffigur ar gyfer B yn lle'r ffigur CPI. Mae hyn yn sicrhau na fydd cynnydd sylweddol ym miliau ardrethi talwyr ardrethi, a fyddai wedi digwydd pe bai'r ffigur CPI ar gyfer B yn cael ei ddefnyddio.

Er mwyn cyfrifo'r ffigur priodol ar gyfer rhewi'r lluosydd, mae'n ofynnol i'r gwerth am (B x D) wedi'i rannu gan y gwerth am (C x E) yn y fformiwla a nodir uchod fod yn hafal i 1. Ar gyfer 2023-24, cyfrifwyd mai 113.9 yw gwerth B, i ddarparu ar gyfer y canlyniad hwn.

Mae hyn yn golygu bod y lluosydd ar gyfer 2023-24 yn aros yn 0.535, yn hytrach na chynyddu i 0.581.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud Rheoliadau 2023 wedi'i nodi ym mharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Mae'n darparu na fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(13A), wrth eu cymhwyso i flwyddyn ariannol benodol, yn effeithiol oni chânt eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd.

Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau 2023 gael eu cymeradwyo gan y Senedd cyn i'r pleidleisiau ar *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* (y setliad llywodraeth leol terfynol a setliad terfynol yr heddlu) gael eu cynnal, neu cyn 1 Mawrth 2023, p'un bynnag sydd gynharaf. Mae'r gofyniad hwn yn codi am fod y lluosydd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfrifo cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn y setliadau blynyddol. Bwriedir cynnal y dadleuon ar y setliad llywodraeth leol terfynol a setliad terfynol yr heddlu ar gyfer 2023-24 yn ystod mis Mawrth 2023.

3. Y cefndir deddfwriaethol

O dan Ddeddf 1988, ar gyfer blynyddoedd ariannol lle mae rhestrau ardrethu newydd yn berthnasol (h.y. yr holl flynyddoedd sy'n flynyddoedd ailbrisio), y sefyllfa ddiodyn ar gyfer pennu'r lluosydd i Gymru yw defnyddio'r fformiwla a nodir ym mharagraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Mae'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 yn flwyddyn ailbrisio ac, felly, ceir rhestr ardrethu newydd.

Y ffigur ar gyfer B yn y fformiwla a nodir ym mharagraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yw'r CPI ar gyfer mis Medi y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw.

O dan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwyso is-baragraffau (5A), (5B), (9A) a (9B) o baragraff 5 yn yr Atodlen honno. Effaith hyn yw galluogi rheoliadau naill ai i ddefnyddio mynegai gwahanol yn lle CPI, neu i bennu ffigurau amgen ar gyfer B a/neu C o fewn y fformiwlâu a nodir yn Atodlen 7. Gan fod offerynnau statudol sy'n

newid y lluosydd mewn blynyddoedd blaenorol wedi mabwysiadu'r dull o newid y ffigur ar gyfer B, bernir bod mabwysiadu'r dull hwn yn darparu'r lefel fwyaf o eglurder deddfwriaethol. Y pŵer hwn yw'r pŵer y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei arfer wrth wneud Rheoliadau 2023.

Ar gyfer 2021-22 a 2022-23, penderfynwyd rhewi'r lluosydd, sy'n golygu bod angen is-ddeddfwriaeth er mwyn pennu ffigur amgen ar gyfer B. Penderfynwyd hefyd y caiff y lluosydd ei rewi ar gyfer 2023-24, sy'n golygu bod angen gwneud Rheoliadau 2023. Yn unol â hynny, wrth wneud Rheoliadau 2023, mae'r lluosydd yn aros yr un ffigur â'r hyn a gyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020-21, 2021-22 a 2022-23.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan baragraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, ar ôl gwneud Rheoliadau 2023, eu gosod gerbron y Senedd i'w cymeradwyo. Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' a rhaid i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt gael effaith.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Effaith Rheoliadau 2023 fydd rhewi'r lluosydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, a phennu ffigur o 0.535 ar ei gyfer. Mewn blwyddyn ailbriso, byddai'r lluosydd fel arall yn cael ei addasu i gynnal refeniw termau real yn unol â CPI, gan gymryd i ystyriaeth newidiadau yng nghyfanswm gwerth ardrethol y sylfaen drethu.

Bydd Rheoliadau 2023 yn gymwys i 2023-24 yn unig. Gwnaed offerynnau tebyg i sicrhau newid i gynyddu'r lluosydd drwy ddefnyddio'r CPI yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) ar gyfer 2018-19 i 2020-21, ac ar gyfer rhewi'r lluosydd yn 2021-22 a 2022-23.

Bydd pob perchennog a meddiannwr eiddo annomestig yng Nghymru sy'n talu ardrethi yn elwa ar y newid, ac yn cael biliau ardrethi is ar gyfer 2023-24 nag y byddai pe bai CPI yn cael ei ddefnyddio. Bydd hyd yn oed eiddo sy'n cael symiau sylweddol o ryddhad ardrethi yn elwa, gan y bydd y rhwymedigaeth weddilliol yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio lluosydd is.

Caiff yr holl refeniw NDR a gesglir yng Nghymru ei roi mewn cronfa ganolog a'i ddosbarthu i'r awdurdodau lleol ac i gomisiynwyr heddlu a throseddau fel rhan o'r setliadau blynyddol ar gyfer llywodraeth leol. Gelwir y cyfanswm i'w ddosbarthu fel hyn yn Swm Dosbarthadwy. Fe'i cyfrifir drwy gymhwyso'r lluosydd i gyfanswm cenedlaethol amcangyfrifedig y gwerth ardrethol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw warged neu ddiffyg a gariwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.

Mae'r Swm Dosbarthadwy yn gydran allweddol o'r setliadau refeniw blynyddol ar gyfer llywodraeth leol ac mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd fel rhan o *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* a gyhoeddir yn flynyddol. Mae angen i'r lluosydd, felly, gael ei bennu cyn y gellir rhoi trefn derfynol ar y setliad blynyddol.

Mae diben clir i'r polisi y tu ôl i'r ddeddfwriaeth. Ei nod yw cefnogi twf economaidd a lleihau'r atebolrwydd trethi lleol i fusnesau a thalwyr ardrethi annomestig eraill

yng Nghymru, gan sicrhau nad ydynt o dan anfantais o'u cymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Bydd rhewi'r lluosydd yng Nghymru, yn hytrach na'i gynyddu i gynnal refeniw NDR termau real yn unol â CPI, yn lleihau'r incwm i'r gronfa NDR yn ystod 2023-24. Bydd y gostyngiad yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei adlewyrchu yn y cyfrifiadau ar gyfer setliadau llywodraeth leol, fel nad oes unrhyw effaith ariannol ar gyllidebau awdurdodau lleol na chyllidebau'r heddlu.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y polisi y tu ôl i Reoliadau 2023. Mae'r cynigion o fudd i bob talwr ardrethi yng Nghymru ac nid oes unrhyw effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol na gwasanaethau'r heddlu. Mae'r sefyllfa bolisi yn sicrhau nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU.

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn (RIA) yn cyflwyno tri opsiwn mewn perthynas â'r lluosydd NDR ar gyfer 2023-24. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn.

Opsiwn 1 – Defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd (gwneud dim)

Byddai'r opsiwn hwn yn cynyddu'r lluosydd ar gyfer 2023-24 er mwyn cynnal referiw NDR termau real yn unol â CPI fel yr oedd ym mis Medi 2022, gan bennu ffigur o 0.581 ar ei gyfer.

Opsiwn 2 – Rhewi'r lluosydd (gwneud Rheoliadau 2023)

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gynnydd yn y lluosydd, gan bennu ffigur o 0.535 ar ei gyfer.

Opsiwn 3 – Lleihau'r lluosydd

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostwng y lluosydd ar gyfer 2023-24. Er enghraifft, byddai lleihau'r lluosydd o 2%, yn arwain at ffigur o 0.524 ar ei gyfer.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd

Mae'r canlynol yn dangos effaith defnyddio CPI i gynyddu'r lluosydd ar fil ardrethi annomestig eiddo.

Er enghraifft, os oes gan eiddo werth ardrethol (RV) fel y'i haseswyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió o £15,000, y bil ardrethi ar gyfer 2022-23 (cyn unrhyw ryddhad) fyddai:

$$RV \quad £15,000 \times 0.535 = £8,025$$

Byddai defnyddio CPI yn arwain at fil ardrethi blynyddol ar gyfer 2023-24 o:

$$RV \quad £15,000 \times 0.581 = £8,715$$

Y cynnydd yn y tâl blynyddol, felly, fyddai £690. Dyma'r sefyllfa a nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth sylfaenol, a fyddai'n berthnasol pe na fyddai Rheoliadau 2023 yn cael eu gwneud.

Ni fyddai unrhyw gost i Lywodraeth Cymru o fynd ar drywydd yr opsiwn hwn.

Opsiwn 2 – Rhewi'r lluosydd

Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau na fydd cynnydd sylweddol oherwydd chwyddiant ym miliau ardrethi talwyr ardrethi ar gyfer unrhyw eiddo annomestig. Gan ddefnyddio'r enghraifft o Opsiwn 1:

Y bil ardrethi ar gyfer 2022-23 oedd:

$$RV \quad £15,000 \times 0.535 = £8,025$$

Byddai rhewi'r lluosydd ar gyfer 2023-24 yn rhoi bil o:

$$RV \quad £15,000 \times 0.535 = £8,025$$

Byddai rhewi'r lluosydd yn arwain at ardrethi sydd £690 yn is nag y byddent pe byddai'r lluosydd yn cynyddu yn unol ag Opsiwn 1. Mae'r enghraifft hon yn rhagdybio nad oes newid yng ngwerth ardrethol yr eiddo o ganlyniad i ailbriso.

Amcangyfrifir cyfanswm arbedion o tua £100.3m yn ystod 2023-24 i dalwyr ardrethi annomestig ledled Cymru. Arbedion cylchol fyddai'r rhain, ar ben yr arbedion a wnaed yn sgil rhewi'r lluosydd ers 2021-22 a chyfyngu ar gynnydd yn y lluosydd rhwng 2018-19 a 2020-21. Mae cost gyfatebol i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau na fydd effaith ar y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol.

Mae unrhyw gamau i roi cap ar gynnydd yn y lluosydd o fudd o bob talwr ardrethi nad yw'n cael rhyddhad ardrethi 100%. Drwy roi cap ar y lluosydd ar sail debyg i'r hyn a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU, byddai modd sicrhau nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â thalwyr ardrethi yn Lloegr.

Opsiwn 3 – Lleihau'r lluosydd

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad mewn biliau ardrethi ar gyfer pob eiddo annomestig, o'i gymharu ag Opsiynau 1 a 2. Gan ddefnyddio'r enghraifft o Opsiynau 1 a 2:

Y bil ardrethi ar gyfer 2022-23 oedd:

$$RV \quad £15,000 \times 0.535 = £8,025$$

Byddai gostyngiad o 2% yn y lluosydd ar gyfer 2023-24 yn rhoi bil o:

$$RV \quad £15,000 \times 0.524 = £7,860$$

Felly, byddai gostyngiad o £165 yn yr ardrethi ar gyfer yr eiddo. Felly, byddai ardrethi £165 yn is nag Opsiwn 2, ac £855 yn is nag Opsiwn 1.

Byddai lleihau'r lluosydd o 2%, er enghraifft, yn arwain at gyfanswm arbedion i dalwyr ardrethi annomestig ledled Cymru o £124m yn ystod 2023-24. Arbedion cylchol fyddai'r rhain, gyda chost gyfatebol i Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal lefelau cyllid ar gyfer llywodraeth leol.

Dewis Opsiwn

Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r gost o rewi neu leihau'r lluosydd (Opsionau 2 a 3) ac fe fyddai'n gost gylchol. Ni fyddai unrhyw effaith ariannol ar yr awdurdodau lleol na gwasanaethau'r heddlu.

Mae Opsiwn 2 yn golygu na fyddai talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU, drwy sicrhau nad yw biliau ardrethi'n cynyddu oherwydd chwyddiant yn y CPI. Cydnabyddir y byddai Opsiwn 3 yn mynd ymhellach, drwy leihau biliau i dalwyr ardrethi a, thrwy wneud hynny, byddai'n rhoi mwy o faich ar gyllid Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir. Mae hyn yn cydbwysu fforddiadwyedd ac awydd Llywodraeth Cymru i helpu talwyr ardrethi gyda'u biliau.

Dadansoddi effeithiau eraill

Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (Trechu Tlodi)

Mae rhewi'r lluosydd yn rhoi cymorth i bob talwr ardrethi a allai helpu i atal caledi. Mae hefyd yn sicrhau nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â thalwyr ardrethi yn Lloegr lle mae'r lluosydd hefyd wedi cael ei rewi mewn modd tebyg.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

Y Gymraeg

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

Cydraddoldebau

Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd rhewi'r lluosydd yn cynorthwyo pob talwr ardrethi ac, o'r herwydd, bydd yn helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru lewyrchus a mwy cyfartal.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

Bydd rhewi'r lluosydd o fudd i bob talwr ardrethi, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yn y sectorau gwirfoddol, elusennol ac nid-er-elw.

Asesu'r gystadleuaeth

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso i Reoliadau 2023. Gan fod y newid o fudd i bob talwr ardrethi, ni nodir unrhyw effaith ar gystadleuaeth yng Nghymru. Mae rhewi'r lluosydd yn golygu nad yw talwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU.

Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fonitro effaith y newid ar y gronfa ardrethi annomestig.